# CAN ALARUS

AM WEITHREDIADAU ECHRYSLON Y PLA,

NEU'R

# COLERA MORBUS,

YN Y FLWYDDYN 1849.

ENOCH WILLIAMS A'I CANT.

Gyfeillion mwyn y gwledydd, 'rwyf yn eich galw 'mlaen,
Am i chwi ddwys ystyried yr hanes sy yn fy nghan,
Pa fodd mae angau digllon, marchogwr creulon cas,
Yn cwympo hen ac ieuainc    wyneb daear las.

Mae'r hwn wnaeth nef a daear, a phob beth is y rhod,
Yn gwneud ei holl amcanion sy'n amlwg iddo erioed ;
Mae'n meddu ar glefydau a heintiau o bob rhyw,
Sawl fo fe'n ewyllysio a ddwg o dir y byw.

Mae'n bryd i Gymru sobri, yr hon sydd uchel iawn
O ddysg ac o wybodaeth, 'nawr ynddi'n helaeth iawn ;
Ond etto trwy ei phechod mae'n tynu dial Duw,
Trwy anfon pla dinystriol—anwrthwynebol yw.

Mae erchyll swn i'w glywed 'nawr yma thraw yn bod,
Gan blant yn yr heolydd—anedwydd yw y nod,
Waith bod y pla mor greulon yn myn'd a dynion bant,
Mewn un neu ddau ddiwrnod mae'n 'sgybo llawer cant.

Y mae yn lledu ei esgyll yn mhell tu hwnt i'r môr,
Rhyw droion anchwiliadwy sy'n ngweithrediadau'r Iôr ;
'Does neb a all ei ddanfon, er dyfais penaf dyn,
Na neb a all ei attal yn llwyr ond Duw ei hun.

Yn Ffrainc, yn ninas Paris, y mae echrydus le,
Y pla sydd yn difrodi'n arswydus yn ddible ;
Yn ystad pum diwrnod bu feirw—och y mwyth—
Dwy fil, dau cant ac ugain, a chyda hyny wyth.

Yn nhref Caerdydd mae'n enbyd, mae torcalonus lef
I'w glywed gan fabanod a phlant ar hyd y dref,
Wrth wel'd eu tadau a'u mamau yn cael eu tori lawr,
A'u symud mewn byr amser i'r tragwyddoldeb mawr.

O fewn i Ferthyr Tydfil, Pendaren gyda hyn,
A Dowlais a'i chyffiniau—yn wir mae'n golwg syn—
Gwel'd dynion wrth y degau yn myn'd i'r gwely pridd,
Ofnadwy yw y difrod mae'r pla yn wneud bob dydd.

'Dyw angau ddim yn arbed y bonedd mwy na'r tlawd ;
Lladd tad, y fam, a'r plentyn, er pob ymdrechion wnawd ;
Mae'n dwyn teuluoedd cyfain yn gyflym tan y grwn—
Rhyw bla sy'n gwneud archollion, rhai dyfnion ydyw hwn.

Mae'n bryd i Brydain ddeffro, ac eistedd yn y llwch,
A chwyno am ei phechod, a'i thrawsder sydd yn drwch ;
A gwaeddi am drugaredd ar Dduw 'rhwn all ei roi ;
Ymdrechwn am gael noddfa tra byddo lle i ffoi.

Gobeithio gwnaiff Duw attal y wialen cyn bo hir,
Sy weithian yn teyrnasu yn erwin tros ein tir ;
A bod i ni weddio am gael ein cludo i gyd
I afael cadwedigaeth cyn llosgo hyn o fyd.

Ag yna byddwn ddiogel heb ofni briw na phoen,
Yn canu'n mhlith y dyrfa ynghwmpni'r addfwyn oen ;
A rhodio ar ystrydoedd Caersalem maes o law,
A gweled rhyfeddodau yr oesol fyd a ddaw.

Os na ddaw'r pla i'n dala tra byddom is y rhod,
Saeth arall ddaw'n cyfarfod, mae angau'n siwr o'i nod ;
Mae'n hamser yn terfynu, ni fyddwn oll 'run wedd,
Mhen 'chydig bach o amser yn gorwedd yn y bedd.

Ond tra yn Nuw gobeithiom, tra parchom Iôr y nef,
Na fydded i'n anghofio'i naturiol ddeddfau ef ;
Mae moddion yn ein dwylaw, a thrwy ddefnyddio hwy,
Y gallwn fynych ddianc rhag poen, a phla, a chlwy' :

Mae'n hiechyd'n ymddibynu, trwy ddoeth bennodiad Duw,
Ar ein arferion cyson, ar y modd yr ym yn byw ;
Mae cymedroldeb, glendid, a meddwl rhydd o fraw
Yn cadw myrdd yn ddiogel, pan syrthio mil gerllaw.

Mae'r ffiaidd eu hymddygiad, a'r afreolus lu
Sydd weithiau'n goddef eisiau, a weithiau'n gwledda'n hŷ,
Mae'r meddwyn a'r gloddestwr, trwy eu harferion cas,
Yn noethi eu mynwesau i saethau angau glas,

Os bydd cwteri drewllyd yn llygru'r awyr pur,
Os bydd ein cyrff a'n dillad heb gwrdd a dwfr clîr,
Os bydd ein tai yn fawlyd, byth gwel'd y gwyn-galch mwyn,
Daw'r haint fel cosp naturiol, er gweitha'n gwaedd a'n cwyn.

Yn awr wyf yn eich gadael, gyfeillion mwynion mad;
Gobeithio cawn ein golchi yn loyw yn y gwa'd,
A chael ein dwyn ar ddelw y Ceidwad fu ar bren,
A'n dwyn i wlad y gwynfyd i foli byth—Amen.



*Y neb a Argraffo y Gan hon heb genad yr Awdwr a Gospir.*